

Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd
nos Lun, 2 Tachwedd 2020 am 7:00p.m trwy gyfrwng Zoom.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Jim Bryan, Gavin Harris, Menna Jones, Anne Roberts, Dave Snape, Mike van der Eijk a Heather Williams.

113. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

114. DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

115. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD: *cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2020 yn gywir.*

115. MATERION YN CODI

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfarfod ymgynghori cyhoeddus ynghylch y cynnig Sied Rhannu a Thrwsio ac y byddai'r holl ohebiaeth a gwybodaeth gysylltiedig yn cael eu casglu a'u cyflwyno yng nghyfarfod y Cyngor llawn.

116. PRIS Y GOEDEN NADOLIG

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried prisiau am gyflenwi a gosod coeden Nadolig ar Sgwâr Sant Pedr. Gwnaeth Gwasanaethau Coed Cymru roi'r un dyfybris â'r llynedd, £512.00 + TAW, a chynigiodd JB Platform Hire roi'r goeden yn gyfnewid am arwyddion ger y goeden a chyhoedduswyd ar wefan y Cyngor Tref a'r sianelau cyfryngau cymdeithasol. Byddai'n ofynnol llogi peiriant Hiab i osod a thynnu'r goeden i lawr.

PENDERFYNWYD: *derbyn y cynnig gan JB Platform Hire.*

117. COEDEN LLWYBR CELF

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried barn yr arbenigwr coed ynghylch y goeden Llwybr Celf nesaf at Neuadd y Sir ar Stryd y Farchnad. Cytunodd yr aelodau fod angen adnewyddu'r goeden, a threfnu dyfrio ychwanegol ar ôl ei phlannu er mwyn sicrhau ei bod yn sefydlu'n dda.

PENDERFYNWYD: *gofyn am ddyfynbrisiau ar gyfer coeden newydd a system dyfrio'r gwreiddiau.*

118. AMCANGYFRIFON ARIANNOL AR GYFER 2020-21

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cyllideb arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21. Amlinellodd y Clerc y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer 2019-20:

Prosiect Amwynderau (Parc sglefrfyrdio)	£1,500.00
Biniau baw ci	£500.00
Cynnal a chadw manau agored	£12,000.00
Plannu coed	£3,000.00
Dathliadau'r dref	£9,000.00

Crybwylodd yr aelodau fod rhaglen o uwchraddio'r seddau cyhoeddus yn y dref i'w chyflawni.

Cynigiwyd ac eilwyd cadw'r gyllideb yr un fath ar gyfer 2020-21, a phleidleisiodd pawb o blaid hyn.

PENDERFYNWYD: *dyblygu'r symiau dan benawdau cyllideb y Pwyllgor Amwynderau yn 2019-20 ym mlwyddyn ariannol 2020-21, gydag unrhyw danwariant i'w gario trosodd.*

119. CYNLLUN LLIFOLEUO CLWB PELDROED RHUTHUN

Cyfeiriodd y Maer at gais gan Glwb Peldroed Rhuthun am lythyr o gefnogaeth gan y Cyngor Tref i gyd-fynd â'i gais am gyllid fferm wynt tuag at gynllun llifoleuo yn y caeau peldroed. Roedd angen cyflwyno'r cais cyn y dyddiad cais o 7 Tachwedd a byddai'n gofyn am farn aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu hefyd.

PENDERFYNWYD: *fod aelodau'r Pwyllgor Amwynderau o blaid darparu llythyr cefnogi.*

120. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 7 Rhagfyr 2020 am 7pm.*